
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service









# YMUNWCH A NI

## LLAWN AMSER | LLYFRYN GWYBODAETH YMLADDWR TÂN

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

## Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

Os bydd anabledd gyda chi a'ch bod chi'n teimlo eich bod chi'n gallu bodloni'r holl ofynion a restrir o Ddiffoddwr Tân Gweithredol, ein hymrwymiad i chi yw y bydd addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried trwy gydol y broses recriwtio. Er mwyn i gymorth o'r fath fod ar gael yn rhwydd, bydd angen i chi ddod â hynny i sylw'r Tîm Recriwtio ac Adnoddau cyn unrhyw brofion.

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni



# GWERTHOEDD CRAIDD SEFYDLIADOL




**PROFFESIYNOL | GOFALGAR | PARCHUS | GRYMUS | DIBYNADWY | PWRPASOL | DISGYBLEDIG | HYDWYTH**




# YDYCH CHI'N YSTYRIED GYRFA GYDA GTADC?

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru yn falch o wahodd ceisiadau ar gyfer Ymladdwyr Tân System Dyletswydd Llawn Amser i ymuno â ni yn yr yrfa heriol a hynod werth chweil hon.

Mae cymunedau Cymru'n gwerthfawrogi'r gwasanaethau a gynigwyd gennym ac mae angen iddynt deimlo'n hyderus yn y timau hynod fedrus sydd gennym sy'n lleihau risg yn ogystal â delio â sefyllfaoedd brys.  Rydym yn esblygu a gwella'r modd yr ydym yn gweithredu'n parhau wrth gynnal y safonau uchaf.  Mae penodi'r bobl gywir yn hanfodol i'n helpu i gyflawni ein huchelgais i'r dyfodol.

# BETH ALLWN NI EI GYNNIG?

Mae gyrfa o fewn GTADC yn rhoi sgiliau bywyd gwych a phrofiadau newydd i chi. Rydym yn cynnig gyrfa werth chweil ac amrywiol yn ogystal ag ymrwymiad i wneud gwahaniaeth bob dydd i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu fel tîm #decymru

- DYSGU A DATBLYGU
- CAMPFA
- CHWARAEON A CHYMDEITHASU
- YMGYNGHORWYR IECHYD A FFITRWYDD
- CYRSIAU IAITH GYMRAEG
- BUDDION SIOPA
- IECHYD GALWEDIGAETHOL
- AELODAETH UNDEB
- PARCIO AM DDIM
- ELUSEN YR YMLADDWYR TÂN
- RHAGLEN CYMORTH I WEITHWYR
- RHAGLEN GOLAU GLAS MIND
- TÎM CEFNOGI CYDWEITHWYR

# BETH YW'R TELERAU AC AMODAU?

## TÂL

| | |
|---|---|
| *DIFFODDWR TÂN HYFFORDDAI | £24,191 |
| *DIFFODDWR TÂN DATBLYGU | £25,198 |
| *DIFFODDWR TÂN CYMWYS | £32,244 |

*Cyfraddau Cyflog ar gyfer Ymladdwyr Tân Gweithredol y System Dyletswydd Gyflawn o'r 1af o Orffennaf 2021.

## ORIAU GWAITH

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru'n gweithredu systemau rota - bob un yn cynnwys yr angen i weithio oriau anghymdeithasol, penwythnosau a gwyliau.

# BETH YW'R BROSES RECRIWTIO

Cynlluniwyd y nodiadau canlynol i roi syniad o'r broses ddethol i chi, beth i'w ddisgwyl a bydd fydd yn ddisgwyliedig gennych.




## DADANSODDIAD O'R BROSES - AWGRYMIADAU A GWYBODAETH

### 1 Y CAM YMGEISIO

Erbyn hyn mae'r cam ymgeisio ar-lein a bydd yn cipio'r holl ddata personol sydd ei angen i wneud cais am swydd o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (cyfeiriwch at ein datganiad preifatrwydd ar-lein).

Dylai ymgeiswyr chwilio yn yr adran "Gweithio gyda Ni" ar y wefan. Wrth agor tudalen Ymladdwyr Tân y System Dyletswydd Llawn Amser bydd ymgeiswyr yn dod o hyd i'r tab • Apply Now canlynol ar waelod y dudalen. Ar ôl clicio, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at CORE HR i sefydlu cyfrif.




Bydd gofyn i chi lenwi pob adran o'r ffurflen gais ac mae cwestiynau â seren* yn orfodol.

Fel rhan o'r cam ymgeisio, gofynnir i chi ymateb i 3 chwestiwn yn seiliedig ar gymhwysedd. Defnyddir yr ymatebion i'r cwestiynau hyn at ddibenion llunio rhestr fer a byddant yn pennu pwy fydd yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses. RHAID i chi atodi dogfen ar wahân gyda'r ymateb i'r cwestiynau hyn er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf. NI ddylai'r ddogfen hon gynnwys eich enw ond yn lle defnyddir eich Rhif Yswiriant Gwladol i'ch adnabod a dylid ysgrifennu'r Rhif Yswiriant Gwladol yn glir yn lle enw ar frig y papur.

## 2 CAM TYNNU RHESTR FER

Dyma le mae'r dystiolaeth a ddarperir uchod yn cael ei sgorio yn erbyn meini prawf penodol sy'n berthnasol i rôl Ymladdwr Tân SDdG. O fewn y dystiolaeth a ddarperir, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn rhoi atebion sylweddol gan ddangos yn glir eu rôl o fewn sefyllfa a'r camau a gymerwyd. Dylai pob enghraifft a ddarperir fod yn berthnasol i rôl Ymladdwr Tân SDdG a'r gwerthoedd y mae GTADC yn eu cynnal. Dylai ymgeiswyr nodi na fydd defnyddio "geiriau gwefr" heb enghreifftiau ar ei hôl hi yn cyrraedd y meini prawf sgorio gofynnol.

Anogir pob ymgeisydd i edrych ar GTADC a'r gwaith rydym wedi'i wneud / yn ei wneud o fewn y gymuned i ymchwilio ymhellach i baratoi ar gyfer y broses Recriwtio.

## 3 PRAWF GALLU

Os byddwch chi'n llwyddo i gyrraedd y rhestr fer, fe'ch gwahoddir i fynychu'r Profion Gallu.  Anfonir gwybodaeth atoch i'ch cynorthwyo wrth baratoi, gan gynnwys cwestiynau ymarfer.  Mae'r profion hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r cam hwn yn cynnwys cwblhau cyfres o brofion sy'n cynnwys:

**1) Rhesymu Rhifyddol**

Mae'r prawf hwn yn mesur eich gallu i ddeall, dehongli, a gwerthuso gwybodaeth rifyddol yn rhesymegol.  Fe'ch cyflwynir â graffiau, siartiau a manylion rhifyddol a bydd gofyn i chi wneud cyfrifon ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd.

**2) Prawf Deall Gwybodaeth**

Mae'r prawf hwn yn mesur eich gallu i werthuso, rhesymu a chysyniadoli â geiriau a brawddegau.  Byddwch yn derbyn cyfres o ddarnau a bydd gofyn i chi ateb cwestiynau sy'n amlygu eich dealltwriaeth o'r hyn a gyfathrebir o fewn y darnau.



## 4 PROFION CORFFOROL AC YMARFEROL

Gall Ymladd Tân fod yn weithgaredd sy'n gorfforol feichus a pheryglus, gyda'r potensial i'ch dinoethi i lwythau thermol ffisiolegol ac amgylcheddol uchel. I sicrhau perfformiad gweithredol effeithlon a diogel, mae ffitrwydd meddygol a chorfforol yn hanfodol.

Os byddwch yn pasio'r Profion Gallu, cewch eich gwahodd i'r fynychu diwrnod yr Asesiadau Corfforol ac Ymarferol). Cynlluniwyd y profion ar y diwrnod hwn i asesu lefel eich ffitrwydd corfforol yn unol â gofynion y rôl.

Os bydd angen mwy o wybodaeth am sut i baratoi'n ddiogel ar gyfer yr Asesiadau Corfforol ac Ymarferol, cewch weld yr holl brofion gweithredol yn ogystal â lawr lwytho Rhaglen Hyfforddiant Ffitrwydd Paratoadol o:

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/firefighter-role/firefighter-wholetime

**Gellir cyrchu pob asesiad trwy'r ddolen ganlynol:**

SCAN ME

**https://bit.ly/3ELLtlh**

## 5 Y CAM CYFWELD

Os byddwch yn llwyddiannus yn yr Asesiad Corfforol ac Ymarferol, cewch eich gwahodd i fynychu'r Cam Dethol Mae'r cam hwn yn cynnwys cyfweliad. Danfonir Llyfryn Cyfarwyddyd Dethol i'ch cynorthwyo wrth i chi baratoi ar gyfer y cam hwn. Byddwch chi'n cael eich asesu ar y rhinweddau a'r priodoleddau personol megis y rhai isod sy'n hanfodol i rôl y Diffoddwr Tân. Bydd y cwestiynau hefyd yn cysylltu â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (CCPT) (cewch gopi cyn y cyfweliad):

**YMRWYMIAD I AMRYWIAETH A HYGREDEDD**
– i asesu eich ymagwedd tuag at faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a sut y byddwch yn mabwysiadu agwedd deg a moesol tuag at eraill.

**BOD YN AGORED I NEWID**
– y graddau eich bod yn agored i newid ac yn chwilio'n weithredol i'w gefnogi.

**HYDER A HYDWYTHDEDD**
– y graddau eich bod yn hyderus yn eich gallu eich hun i gwrdd â sefyllfaoedd heriol ac i ymdopi â hwynt a chynnal effeithiolrwydd yn wyneb sefyllfaoedd hynod heriol.

**CYFATHREBU EFFEITHIOL**
- Cewch eich asesu ar hyd y cyfweliad ar sail effeithiolrwydd eich cyfathrebu.

**GWEITHIO GYDAG ERAILL**
– asesu eich agwedd at weithio gydag eraill, naill ai fel rhan o dîm neu ar sail un i un.

**YMRWYMIAD I DDATBLYGU**
– i asesu eich ymagwedd at ddatblygu eich hun.

**DATRYS PROBLEMAU**
- faint eich bod yn deall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol mewn modd trefnus, diogel a systematig.

**YMRWYMIAD I RAGORIAETH**
– asesu pa mor gydwybodol a rhagweithiol yr ydych chi wrth gyflawni a chynnal safonau rhagorol.

## 6 ARCHWILIAD MEDDYGOL

Gall Ymladdwyr Tân wynebu gofynion corfforol a seicolegol eithafol mewn amgylchedd anodd a pheryglus. I gydymffurfio â'r darpariaethau statudol perthnasol, mae sgrinio meddygol Ymladdwyr Tân yn drwyadl. Dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, mae rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub leihau risg cyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol. Golyga hyn na fydd cyflwr meddygol sy'n arwain at risg gweithredol rhesymol rhagweladwy yn dderbyniol.

Penderfynir addasrwydd meddygol gan asesiad unigol. Am resymau ymarferol, ni ellir cynnal hwn tan gamau olaf y broses recriwtio. Gall natur ac effaith cyflyrau meddygol amrywio. Felly, nid yw'n bosib cadarnhau cyflyrau meddygol fydd yn annerbyniol cyn asesiad meddygol unigol. Fodd bynnag, os oes gennych gyflwr meddygol neu hanes o gyflwr meddygol a all achosi problemau, dylai'r canllawiau cyffredinol canlynol eich cynorthwyo i ystyried eich addasrwydd meddygol cyn ymgeisio.

Mae cyflwr meddygol neu gyfyngiad gweithredol sydd, er gwaethaf unrhyw ddiwygiadau rhesymol sy'n arwain at risg gweithredol cynyddol sylweddol un o'r canlynol yn annerbyniol:

- Llewyg sydyn neu analluogi sydyn
- Doethineb amharedig;
- Ymwybyddiaeth newidiedig;
- Anaf/salwch corfforol neu seicolegol sylweddol;
- Unrhyw effaith arall fyddai'n achosi risg iechyd a diogelwch sylweddol i chi ac i eraill.



Bydd yr asesiad unigol yn cynnwys ystyriaeth deg o unrhyw safbwyntiau ac adroddiadau meddygol y dymunwch gyflwyno. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad ynghylch perthnasedd unrhyw risgiau yn gorwedd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

A fyddech cystal â nodi fod y Prawf Meddygol yn cynnwys profion cyffuriau ac alcohol.



# GOLWG

Yng nghwrs y broses Recriwtio, o bosib ar yr un pryd byddwch yn sefyll y Profion Gallu, bydd angen tystiolaethu eich gallu i gwrdd â'r safonau gweledda priodol. Cewch eich cynghori pryd a sut yr asesir hwn.

**Mae'r gofynion gweledol ar gyfer Ymladdwyr Tân yn uchel iawn.**

Rhaid i Ymladdwyr Tân Gweithredol feddu ar lefel addas o ganfyddiad lliw. Mae unigolion sydd â golwg lliw arferol neu olwg lliw gwyrdd ychydig yn anarferol yn addas ar gyfer cael eu penodi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r prif ofynion yn cynnwys:

- **Craffter golwg pellter digymorth o 6.9 neu'n well gan ddefnyddio'r ddau lygad;**
- **Gweledda Lliw Arferol (Prawf Ishihara – os ceir dau wall, bydd angen profion pellach)**

Os ydych yn ansicr a ydych yn bodloni'r gofynion hyn, fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor gan optegydd cymwys. Yn ogystal â'r profion gweledol rhagarweiniol , ymgymerir â phrofion gweledol manwl yn ystod gam feddygol y broses.

Os cafwyd triniaeth laser i'r llygaid, ni ystyrrir ceisiadau am leiafswm o 12 mis wedi dyddiad y llawdriniaeth, ond cewch ymgeisio o hyd.

Mae'r safonau gweledd a gymhwyswyd yn unol â Chyfarwyddyd Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CPST) ac nid ydynt yn agored i drafodaeth.

## 8 PENODI

Os ydych chi'n llwyddiannus ar bob cam o'r broses recriwtio. Gwneir cynigion am gyflogaeth wrth i swyddi gweigion godi. Mae unrhyw gynnig o gyflogaeth yn amodol ar dderbyn tystlythyrau boddhaol a gwiriadau fetio. Pe derbynnir tystlythyr anfoddhaol neu wiriad fetio, tynnir y cynnig o gyflogaeth yn ôl.

Os nad ydych wedi sicrhau swydd o fewn yr amserlenni a bennwyd gan y Gwasanaeth recriwtio, bydd gofyn i chi wneud cais drwy broses recriwtio ganlynol.

# GYDA PHWY Y DYLWN I GYSYLLTU?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Recriwtio ac Adnoddau drwy law

E-bost: sddg@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch: 01443 232200

Hoffem ddymuno pob llwyddiant i chi ar hyd y Broses Recriwtio.

# CYSYLLTWCH Â NI

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Tîm Recriwtio ac Adnoddu
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Llinell Recriwtio - 01443 232200
personel@decymru-tan.gov.uk

**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**
**South Wales Fire and Rescue Service**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

www.southwales-fire.gov.uk/firefighter-wholetime

SCAN ME

V1.0 - 2023 | MC000096